# TAFLEN NEWYDDION CYMUNEDOL LLANDYFAELOG COMMUNITY NEWSLETTER



Paratoi'r Goeden Nadolig
Preparing the Christmas Tree
Llun / Photo – Shan Rees

# CYFLWYNIAD / INTRODUCTION

Croeso i Rifyn Gaeaf Daflen Newyddion Chwarterol Cymunedol Llandyfaelog.

Cyhoeddir y Daflen Newyddion trwy'r Wefan Gymunedol www.llandyfaelog.org.uk, ond os hoffech gael eich cynnwys ar y rhestr dosbarthiad trwy e-bost, cysylltwch ag Arfon Davies Clerc Cyngor Cymuned Llandyfaelog Llandyfaelog@btinternet.com

Er eich gwybodaeth mae'r rhannau Gymraeg o'r Cylchlythyr mewn coch â'r Saesneg yn glas.

Bydd y Clerc yn hapus i dderbyn eich sylwadau neu erthyglau ar gyfer y Rhifyn nesaf.

Welcome to the Winter Edition of the Llandyfaelog Quarterly Community Newsletter.

The Newsletter is published on the Community Website www.llandyfaelog.org.uk, however if you would like to be included on the email distribution list, please contact Arfon Davies, Llandyfaelog Community Council Clerk Llandyfaelog@btinternet.com

For ease of reference the parts of the Newsletter in Welsh are in red with the English in Blue.

The Clerk will be happy to receive your comments or articles for the next Edition.

## Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council

| **Dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor** | **Council Meeting Dates** |
|---|---|
| 9 Ionawr 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog | 9 January 7.30pm Llandyfaelog Hall |
| 6 Chwefror 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog | 6 February 7.30pm, Llandyfaelog Hall |
| 6 Mawrth 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog | 6 March 7.30pm, Llandyfaelog Hall |

Gellir gweld cofnodion ac agenda cyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn
Cyfarfod, Agenda a Chofnodion – Llandyfaelog Community Council – Cym (visionict.com)

Community Council minutes and meeting agenda can be found at
Meetings, Agendas and Minutes – Llandyfaelog Community Council – Eng

## Plannu Bylbiau Daffodiliau / Daffodil Bulb Planting

Mae nifer o fylbiau cennin pedr wedi'u plannu ar draws y Gymuned gan Gyngor Cymuned Llandyfaelog a gwirfoddolwyr, gan gynnwys plant Cywion Bach yn Idole, yn dilyn derbyn bylbiau trwy'r Cynghorydd Sir Tyssul Evans a Chronfa SPF Llywodraeth y DU a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae plannu eisoes wedi digwydd yng Nghroesyceiliog, Glanmorlais, Idole a Llandyfaelog. Diolch i bawb wnaeth helpu! Edrychwn ymlaen nawr i weld y blodau yn y Gwanwyn.

A number of daffodil bulbs have been planted across the Community by Llandyfaelog Community Council and volunteers, including the children of Cywion Bach in Idole, following receipt of bulbs through County Councillor Tyssul Evans and the Carmarthenshire County Council Administered, UK Government SPF Fund. Planting has already taken place in Croesyceiliog, Glanmorlais, Idole and Llandyfaelog. Thanks to everyone who have helped! We now look forward to seeing the flowers in the Spring.



Plannu Bancycapel



Plannu Idole








Plannu Llandyfaelog

Funded by
UK Government

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Cefnogwyd gan
Supported by

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

**<u>Neuadd Cymunedol Llandyfaelog Community Hall</u>**

**<u>Clwb 100 2024 / 2024 100 Club</u>**

# Nadolig 2024 / Christmas 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1$^{af}$ / 1$^{st}$ | 42 | Eurig a Meinir James | £100 |
| 2$^{il}$ / 2$^{nd}$ | 35 | Mary Davies, Cwmffrwd | £75 |
| 3$^{ydd}$ / 3$^{rd}$ | 110 | Mike Rogers | £50 |
| 4$^{ydd}$ / 4$^{th}$ | 104 | Janet Rogers | £20 |
| 5$^{ed}$ / 5$^{th}$ | 121 | Karen Sallis | £20 |

**<u>Ŵyl Nadolig Llandyfaelog</u>**
**<u>Llandyfaelog Christmas Festival</u>**

Cafwyd noson hwylus iawn gyda chwmni Siôn Corn ar ddydd Llun 2il Rhagfyr yn Ŵyl Nadolig Llandyfaelog. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog gyda gweithgareddau a stondinau yn y Neuadd. Perfformiodd Marjorie Thomas, Y Laurels y Seremoni Goleuo'r Goeden Nadolig.

A very entertaining evening was spent with Father Christmas on Monday 2$^{nd}$ December at the Llandyfaelog Christmas Festival. The event was held at Llandyfaelog Community Hall with activities and stalls in the Hall. Marjorie Thomas, The Laurels performed the Christmas Tree Lighting Ceremony.



Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Fand Croesyceiliog (yn codi arian dros banc bwyd Caerfyrddin) a Phlant y Cymuned am yr adloniant a'r gerddoriaeth. Diolch hefyd i'r holl gynorthwywyr am roi'r goeden yn ei lle eto ynghyd â'u cefnogaeth gyda'r trefniadau ar gyfer Grotto Sion Corn a'r stondinau.

The Committee would like to thank Band Croesyceiliog (raising funds for Carmarthenshire Foodbank) and the Children of the Community for the entertainment and music. Thanks also to all the helpers for putting the tree in place again along with their support with the arrangements for the Santa's Grotto and stalls.








Band Croesyceiliog

Cefnogwyd rhoddion Siôn Corn i'r plant gan Gadeirydd y Neuadd, Carys Thomas. Yn dilyn y digwyddiad rhoddwyd gweddill yr anrhegion i apêl Blwch Tegannau Cyngor Sir Caerfyrddin. Ymwelodd cydlynydd yr apêl, Nia Thomas, â Llandyfaelog er mwyn I Ysgrifennydd y Neuadd Arfon Davies a Shan Rees gyflwyno'r rhoddion ar ran Carys ynghyd â Chadeirydd y Cyngor Cymuned, y Cynghorydd Nicola Jones a gyflwynodd rodd o £150 i'r apêl gan Gyngor Cymuned Llandyfaelog.



Father Christmas' gifts to the children were supported by Hall Chair, Carys Thomas. Following the event the remaining presents were donated to the Carmarthenshire County Council Toybox appeal. Appeal co-ordinator Nia Thomas, visited Llandyfaelog for Hall Secretary Arfon Davies and Shan Rees to present the gifts on behalf of Carys along with Community Council Chair, Cllr Nicola Jones who presented a donation of £150 to the appeal from Llandyfaelog Community Council.



## Newyddion Eisteddfod Llandyfaelog

Hoffai Pwyllgor Eisteddfod Llandyfaelog ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd, a diolch am eich cefnogaeth i'r Eisteddfod bob blwyddyn.

Cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog ar 8fed Chwefror 2025 yn Neuadd Llandyfaelog. Croeso cynnes i gystadleuwyr lleol ac agored. Yn ogystal â'r cystadlaethau arferol, mae gennym nifer o gyfleoedd newydd eleni yn cynnwys canu emyn, alaw werin, cerdd dant a dawns. Am fanylion pellach ar ein cystadlaethau llwyfan a chartref, ewch i wefan yr eisteddfod: https://eisteddfodllandyfaelog.cymru neu ein tudalen Facebook.

Cynhelir swper blynyddol yr Eisteddfod ar nos Fawrth 14 Ionawr 2025 yn Y Llew Coch Llandyfaelog. Cysylltwch gydag aelod o bwyllgor yr Eisteddfod os hoffech ymuno â ni. Croeso Cynnes i bawb!

## Llandyfaelog Eisteddfod News

Eisteddfod Llandyfaelog would like to wish you all a Merry Christmas and a happy new year! Thank you for supporting the Eisteddfod over the past year.

The 2025 Llandyfaelog Eisteddfod will be held on Saturday 8th February in Llandyfaelog Hall. A warm welcome is extended to competitors in local and open competitions. We have a wide choice of new opportunities this year including hymn singing, folk singing, cerdd dant and dance. Further details of stage and literary competitions are available on the eisteddfod website:
https://eisteddfodllandyfaelog.cymru, or our Facebook page.

The Annual Eisteddfod Supper will be held in The Red Lion, Llandyfaelog on 14 January. Please contact a member of the Eisteddfod Committee if you would like to join us. A warm welcome to all.

## Merched y Wawr Glannau Pibwr

Sefydlwyd y gangen yn 1983 gyda'r pwrpas o gymdeithasu a mwynhau gweithgaredd drwy gyfrwng y Gymraeg, Fe ddenu'r aelodau o blwyf Llandyfaelog gyda rhai yn teithio o Lanyfferi, Nant y Caws a hyd yn oed o dre Caerfyrddin hefyd. Yr ydym fel arfer yn cwrdd yn neuadd y Santes Ann, Cwmffrwd am 1.30 yp ar y trydydd dydd Iau yn y mis ac y mae yna groeso cynnes i unrhyw un sydd a diddordeb i ymuno a ni yno.

Mae'r rhaglen yn amrywiol ac ers cychwyn y tymor presennol ym mis Medi, estynnwyd croeso i Mansel Thomas a ymddangosodd ym mherson Iolo Morgannwg gan drosglwyddo hanes bywyd Iolo mor wirioneddol fyw i ni. Geraint Wyn Jones oedd gwestai mis Hydref ac fe gawsom wedd wahanol ar hanes Gŵyl y Geni ganddo. Ym mis Tachwedd fe wanaethom ymweld a ffermdy Pentrecelyn , Ffynnonddrain pryd y gwnaeth Nia Evans rhoi ychydig o hanes ei theulu ac ar sut y gwnaeth ddatblygu ei busnes Bodlon yno. Yn goron ar ein ymweliad oedd mwynhau te prynhawn blasus iawn oedd wedi ei baratoi ar ein cyfer. Mwynhau yw thema ein cyfarfod nesaf hefyd pryd y byddwn yn eistedd unwaith eto o amgylch y bwrdd yn Neuadd y Santes Ann ar Rhagfyr 19fed yn ymborthi ar ddanteithion Nadoligaidd ac yn hel atgofion am ddathlu'r ŵyl yn y dyddiau a fu.